OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 993

# Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003

## RHAN II

RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL

**Rhaglen waith flynyddol**

**2.**—(1) Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol mae'n rhaid i'r Comisiwn baratoi rhaglen waith sy'n nodi'r gweithgareddau y mae'r Comisiwn i ymgymryd â hwy yn y flwyddyn honno wrth arfer ei swyddogaethau.

(2) Rhaid i bob rhaglen waith, mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, nodi —

(a) unrhyw faterion penodol y mae'r Comisiwn am ddarparu cyngor neu wybodaeth am drefniadau llywodraethu clinigol yn eu cylch;

(b) cynigion ynghylch cyrff GIG y mae'r Comisiwn am gynnal adolygiadau llywodraethu clinigol ynglŷn â hwy;

(c) cynigion ynghylch y personau neu'r cyrff y mae'r Comisiwn am gynnal adolygiadau cyffredinol ynglŷn â hwy;

(ch) unrhyw faterion penodol y mae'r Comisiwn am eu hystyried wrth gynnal adolygiad llywodraethu clinigol neu adolygiad cyffredinol;

(d) y mathau penodol o ofal iechyd a fydd yn destun unrhyw adolygiadau gwasanaeth gwladol; a

(dd) unrhyw faterion penodol y mae'r Comisiwn am gynnal adolygiadau dilysu yn eu cylch.

(3) Bydd y rhaglen waith yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Gellir amrywio y rhaglen waith—

(a) gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol; neu

(b) yn ôl yr hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei benderfynu.

(5) Yn ddarostyngedig i'r rheoliadau canlynol ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau mewn unrhyw flwyddyn ariannol yn unol â'r rhaglen waith sy'n berthnasol i'r flwyddyn honno.